

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 2il o Fedi 2014

**Yn bresennol / Present:** Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Lewis Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Geraint Davies, Cyng Mary Thomas, Cyng Daff Davies, Cyng Alun James, Cyng Helen Howells, Cyng Bill Green

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Daniel Evans, Cyng Alun Davies

Croesawodd y Cyng Geraint Hatcher bawb yn ôl gan obeithio bod pawb wedi cael haf boddhaol. Cllr Geraint Hatcher welcomed everyone back hoping that everyone had had a lovely summer.

Dymunwyd Pen-blwydd Hapus wrth Cyngor Cymuned Llanwenog i Ada Davies yn 103 mlwydd oed. A warm Happy Birthday was extended from Llanwenog Community Council to Ada Davies who celebrated her 103 birthday recently.

1	<b><u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interests</u></b> Dateglodd y Cyng Geraint Hatcher fuddiant personol ym mhwynt 6h a'r Cyng Geraint Davies ym mhwynt 5d a 6f. Cllr Geraint Hatcher declared a personal interest in agenda point 6h and Cllr Geraint Davies in agenda points 5d and 6f.
2	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn gywir gan y Cyng. Mary Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Alun James. The July minutes were proposed as a true record by Cllr Mary Thomas and seconded by Cllr Alun James.
3.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b>
a.	Taith dros fywyd – Walk for Life: Mynychodd y Cadeirydd, Cyng Geraint Hatcher a'i wraig ginio Sefydliad Aren Cymru yn y Marriott yng Nghaerdydd ac fe wnaeth ef a'i nai Endaf Hatcher gyflwyno'r siec yn swyddogol i'r sefydliad. The Chairman, Cllr Geraint Hatcher and his wife attended the Kidney Wales Foundation dinner at the Marriott in Cardiff and Geraint and his nephew Endaf Hatcher officially presented the cheque to the charity.
b.	Trosglwyddo perchnogaeth y Gofgolofn - Deed of Trust Transfer: Mi fydd y Cyng Alun James, Cyng Helen Howells a'r Cyng Geraint Hatcher yn cael cyfarfod gyda cyfreithwyr Arnold Davies Vincent Evans is drafod trosglwyddo perchnogaeth y gofgolofn i'r Cyngor Cymuned. Cllr Alun James, Cllr Helen Howells and Cllr Geraint Hatcher will attend a meeting with the solicitors Arnold Davies Vincent Evans to discuss the transfer of ownership of the Drefach War Memorial to the Community Council.
c.	Adborth o gyfarfod GIG Gwansanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol – Feedback from the NHS Maternal and Neurological meeting: Mynychodd y Cyng Helen Howells y cyfarfod ar ran y Cyngor Cymuned ac mi ddywedodd bod popeth wedi ei benderfynu cyn y cyfarfod a bod y

	<p>gwaith yn cael ei weithredu o mis Awst ymlaen. Mi fydd oriau yn cael ei rhoi i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn ddoctoriaid ac mae adeiladau newydd wedi cael eu codi yn Glangwili a Whithybush. Os am ragor o wybodaeth yna mae'r cyflwyniad gyda'r Clerc. Cllr Helen Howells attended a meeting on behalf of the Community Council and she explained that everything had been decided prior to the meeting and that the changes would be implement at the beginning of August 2014. Hours will be given to trainee doctors and new buildings have been built at Glangwili and Whithybush. For more information the presentation is available from the Clerk.</p> <p>d. Canmlwyddiant y Rhyfel Mawr – Centenary of the Great War – Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Mary Thomas am drefnu a chynnal digwyddiad cofiadwy ar ddydd Sul y 10fed o Awst o gofio am aberth y milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig a ddaeth ag enwadau a sefydliadau'r Plwyf ynghyd. Casglwyd £255.47 i Help the Heroes. The Chairman thanked Cllr Mary Thomas for organising and holding a memorial day on the 10<sup>th</sup> August to remember the soldiers who gave their lives in the First World War. It was a fantastic day which brought together the denominations and organisations within the Parish. £255.47 was given to Help the Heroes.</p>
<p>4 a.</p>	<p><b><u>Gohebiaeth</u></b></p> <p>Ymgynghoriad ar Rhaglen LEADER Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 - Consultation on the Wales Rural Development Plan 2014-2020 LEADER programme. Mae rownd nesaf o arian Ewrop yn dod trwy'r cynllun yma ac mae cyfle i ymgynghori mewn cyfarfod agored ar y 4ydd o Fedi yng Nghanolfan Fwyd Horeb rhwng 6pm-8pm. Maent am glywed wrthyhych am yr heriau mwyaf yng nghefn gwlad y gellid defnyddio cyllid LEADER i fynd i'r afael â hwy, er mwyn i'r Grŵp Gweithredu Lleol fedru cefnogi economi wledig gref a chynaliadwy. Mae llawer o bethau'n medru hybu cymuned fywiog, gan gynnwys meithrin busnesau gwledig cystadleuol a chynaliadwy, ac annog rheolaeth gynaliadwy ym myd amaeth a'r amgylchedd. The next round of European money is coming through this scheme and there is an opportunity for consultation in an open meeting on the 4<sup>th</sup> of September at the Food Centre, Horeb between 6pm-8pm. They would like to hear about what rural issues you consider to be the main challenges that LEADER funds should be used to tackle in order that the Local Action Group can support a strong, sustainable rural economy. Fostering competitive and sustainable rural businesses, supporting the countryside, encouraging the sustainable management of agriculture and the environment can all help support a thriving community.</p> <p>b. Cymunedau Gofalgar – Caring Communities: Derbyniwyd llythyr yn dangos astidiaeth achos cymuned Pennant a sut y maent wedi tynnu at ei gilydd i greu cymuned cynaliadwy, brwdfrydig. A letter was received to show an example of a close community, Pennant and how they have pulled together to create a sustainable community.</p>

<p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p> <p>f.</p> <p>g.</p> <p>h.</p> <p>i.</p>	<p>Posteri ynghylch y newid yn y Cofrestru Etholiadol / Posters relating to the change in the electoral registration. Cylchredwyd y poster. Posters were circulated.</p> <p>Ceredigion Age Cymru – Derbyniwyd pamffled yn gofyn am unrhywun sydd â diddordeb ymuno gyda’r sefyliad. Nodwyd hyn. A pamphlet was received asking if anyone would be interested in joining the organisation. This was noted.</p> <p>Un Llais Cymru – Trafodwyd Cynnigion Cyfarfod Blynyddol 4ydd Hydref 2014. The proposals for the AGM on the 4<sup>th</sup> October 2014 were discussed.</p> <p>Cylchredwyd Llythyr Newyddion Bwcabus. The Bwcabus newsletter was circulated.</p> <p>Cyngor Tref Aberystwyth – Arbedwn wasanaethau iechyd Ysbyty Bronglais cyfarfod ar y 12fed o Fedi 2014. Meeting on the 12<sup>th</sup> September 2014 to discuss the health service at Bronglais Hospital.</p> <p>Papur Gwyn - White Paper – Rhoddwyd fraslun ar y newidiadau i strwythur y Cynghorau ond ni theimlwyd bod y Cynghorwyr wedi darllen digon ar y mater i rhoi barn cytbwys. An overview of the proposed restructuring of the Councils was given however it was not felt that the Councillors had read enough on the matter to give a balanced view.</p> <p>Toriadau’r Cyngor - Funding Cuts. Dosbarthwyd holiadur i’r cynghorwyr rhoi eu barn ar y toriadau. A questionnaire was circulated with regards to the proposed cuts.</p>
<p>5.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p>	<p><b>Taliadau a cheisiadau am Arian</b></p> <p>Llyfr Hanes Côr Cwmann a’r Cylch History Book - £50.00 P: Cyng Mary Thomas E: Cyng Bill Green</p> <p>Sefydliad Prydeinig y Galon - British Heart Foundation - £25.00 P: Cyng Gwilym Jenkins E: Cyng Alun James</p> <p>Shelter Cymru – Penderfynwyd peidio ai cefnogi’n ariannol. It was decided not to support this charity financially.</p> <p>Tê Canmlwyddiant y Rhyfel Mawr – Great War Cenetenary Tea Party - £37.39</p>

<p>6.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p> <p>f.</p> <p>g.</p> <p>h.</p> <p>i.</p> <p>j.</p>	<p><b><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></b></p> <p>Ymgynghori ynghylch Canllawiau Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio; Cadwraeth Natur; Ynni Adnewyddadwy; Safonau Parcio a Asesiad Trafnidiaeth.</p> <p>Tanrhos, Cwrtnewydd – Erection of a dwelling for an agricultural worker – WITHDRAWN</p> <p>Troedyrhiw, Cwrtnewydd – Erection of a single storey extension – APPROVED</p> <p>Land adjacent Penlan Fawr, Cwmsychpant – Erection of a rural enterprise dwelling – No objection</p> <p>Land adjacent Penlan Fawr, Cwmsychpant – Shed for storage of machinery, equipment, steel and other materials – No objection</p> <p>Llys Deri, Llanwenog – Replacement domestic shed – No objection</p> <p>14 Bro Teify, Alltyblacca – Erection of a garden shed and open side canopy/covered area – No objection</p> <p>Abernant, Llanwenog – Erection of an agricultural shed for storage and machinery, animal feed and general farm husbandry – No objection</p> <p>Land to rear of Llandre, Drefach – Change of use of existing garage to small scale commercial kitchen – No objection</p> <p>Land to rear of Llandre, Drefach – Proposed erection of 14.46m long x 6.4m wide poly-tunnels (agricultural) – No objection</p>
<p>8.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><b><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b></p> <p><b><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</u></b> Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 7fed o Hydref am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 7<sup>th</sup> October at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p> <p>Fe wnaeth y Cynghorwyr ofyn i'r Clerc ysgrifennu at yr adran briffyrdd ynghylch torri tyfiant ger Tafarn y Cledlyn, Cware Villa Gorsgoch a Eglwys Llanwenog ynghyd ag ail-bwyntio pont Drefach. The Councillors requested that the Clerk writes to the Highways authority to ask for the vegetation at Tafarn y Cledlyn, Cware Villa Gorsgoch and Llanwenog Church to be cut along with re-pointing of the bridge in Drefach.</p> <p>Mae'r gwaith o adnewyddu Neuadd Gorsgoch yn mynd i ddechrau cyn bo hir ond hysbysebwyd bod Helfa Drysor yn digwydd ddydd Sul 7fed o Fedi</p>

	<p>am 2yp i godi arian i'r neuadd ac mi fydd bwyd i ddilyn yng Nghefnhafod. The work of renovating the Hall at Gorsgoch will start soon and it was advertised that there is a Treasure Hunt starting at 2pm 7<sup>th</sup> September to raise money for the hall and there will be food to follow in Cefnhafod.</p>
--	---